Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Jennifer McBeth**

**Pwllheli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**5 Rhagfyr 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Jennifer Elaine McBeth yn rhedeg gwasanaeth gwarchod plant o'i chartref yng Nghricieth ac mae wedi'i chofrestru i ofalu am hyd at ddeg o blant o dan 12 oed. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 07.45 a 18.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener ond gall yr oriau hyn fod yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion y rhieni. Nid yw'r gwarchodwr plant yn darparu Cynnig Rhagweithiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg; Saesneg yw iaith y gwasanaeth ond caiff rhywfaint o Gymraeg syml ei chyflwyno yn ystod rhai gweithgareddau chwarae a dysgu.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser gyda'r gwarchodwr plant ac mae'n eu hadnabod yn dda. Mae'r amgylchedd glân a chroesawgar yn golygu bod y plant yn setlo'n gyflym i chwarae ac yn llwyddo i ymlacio'n gyflym. Y tu allan yn yr ardd amgaeedig a thrwy fynd am dro ac ar deithiau rheolaidd, gall y plant ddarganfod y byd o'u hamgylch. Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl a'i chyfrifoldebau ac mae ganddi gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni a'r gymuned ehangach.

### 2. Gwelliannau

Mae'r gwelliannau ers ein harolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- ailwampio'r ardd gefn er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd i'r plant fwynhau gweithgareddau yn yr awyr iach;
- mae'r gwarchodwr plant wedi dilyn sawl cwrs er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o arferion cyfredol;
- prynu adnoddau newydd er budd y plant.

Rydym wedi cael y wybodaeth ysgrifenedig ganlynol gan y gwarchodwr plant am welliannau sydd wedi cael eu gwneud ers yr arolygiad hwn;

- Labelu blychau storio isel ac arwyddion dwyieithog ar gyfer gweithgareddau (Cymraeg a Saesneg)

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymell y dylid gwella ymarfer ymhellach mewn perthynas â datblygu cofnodion cynnydd y plant a chreu cofnod ffurfiol o'r trefniadau newydd ar gyfer casglu plant o'r ysgol.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored lle maent yn dysgu sgiliau newydd ac maent yn hapus.  Mae'r plant yn cael dewis ac mae ganddynt gydberthnasau cryf â'r gwarchodwr plant. Maent hefyd yn cael digon o gyfleoedd i dyfu a datblygu.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn barod i leisio barn a gwrandewir arnynt.

Roedd tri phlentyn bach yn cael gofal ac roeddent yn gwybod bod eu dewisiadau'n cael eu parchu, er enghraifft, penderfynu drostynt eu hunain eu bod wedi cael digon i'w fwyta a'i yfed amser cinio. Roedd y plant wedi arwain eu chwarae eu hunain, gan guddio tegan ac esgus ei fod ar goll gan ofyn 'where is Teddy?' Gwnaethant wenu pan ofynnwyd iddynt 'we don't know, where is Teddy?', cyn mynd i nôl y tegan a chwerthin. Roedd y plant wedi mynd at y gwarchodwr plant yn hyderus am gwtsh neu sicrwydd ac wedi cael ymateb yn syth. Roedd y plant yn gwybod bod y gwarchodwr plant yn deall eu hanghenion a'r hyn roeddent yn ei ddweud gan ei bod yn siarad â nhw yn eu dewis iaith, sef Saesneg.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i fynegi eu hunain ac yn gwybod bod yr hyn a ddywedant yn cael ei ddeall a'i barchu.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi setlo'n dda ac maen nhw'n teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd y plant wedi setlo'n dda ac wedi ffurfio cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant, ei theulu a'i gilydd. Roeddent wedi chwarae â balŵn gyda mab y gwarchodwr, wedi estyn eu dwylo allan er mwyn cael mwythau gan ei gŵr ac wedi eistedd ar ei glin pan roeddent yn flinedig. Dywedodd un rhiant wrthym fod ei phlentyn wedi setlo'n dda ers dechrau ym mis Medi. Roedd gan y plant ymdeimlad o berthyn gan eu bod yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol, er enghraifft, amser bwyd, roedd y plant iau yn fwy na pharod i gael eu strapio'n ddiogel mewn cadeiriau uchel.

Caiff llesiant y plant ei ategu gan y cydberthnasau cryf ac agos sydd rhyngddynt â'i gilydd a'r gwarchodwr plant.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r gwarchodwr plant.

Roedd y plant wedi gwrando ar gyfarwyddiadau a, phan ofynnwyd iddynt, gwnaethant godi'r pensiliau lliw oddi ar y llawr a'u rhoi yn ôl yn y fasged liwio, gan fwynhau'r ganmoliaeth a gawsant am helpu. Roedd y plant wedi chwarae'n garedig â'i gilydd ac ar ôl ychydig o anogaeth, roeddent wedi rhannu'r adnoddau'n dda. Roedd un plentyn wedi mwynhau diddanu ei ffrindiau a'r gwarchodwr plant drwy chwarae gêm lle roedd yn rhaid i bawb ddyfalu ble roedd ei dymi. Er y gofynnwyd 'where' i'r plentyn, bu'n rhaid aros rhai munudau cyn i'r plentyn (gyda gwên) ddangos y dymi yr oedd wedi ei guddio wrth ei hymyl yn y gadair uchel. Er mai gêm syml oedd hon, roedd pawb wedi ei mwynhau a'i dathlu gan ei bod yn dangos bod y plentyn yn dod yn ymwybodol o emosiynau pobl eraill a'i bod am wneud i bawb chwerthin.

Mae'r plant, o oedran cynnar, yn meithrin dealltwriaeth gref o'r ffordd i ymddwyn yn gymdeithasol.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn meithrin ymdeimlad o gyflawniad drwy eu chwarae a'u dysgu.

Roedd y plant wedi cael hwyl wrth iddynt chwarae, er enghraifft, roeddent wedi mwynhau codi ofn ar ŵr y gwarchodwr plant drwy guddio eu hwynebau ac yna dweud 'scare', gan gael pleser o weld ei ymateb. Er eu bod yn ifanc o hyd, roedd y plant eisoes yn dysgu cyfrif ac adnabod lliwiau. Roedd un plentyn yn falch o ddod o hyd i bensil melyn ac ymunodd dau arall â'r gwarchodwr plant wrth iddi gyfrif. Gwenodd un plentyn wrth i'r gwarchodwr plant ganu un o'i hoff ganeuon, gan ymuno â hi i ganu'r geiriau a gwneud y symudiadau. Roedd y plant wedi bod yn defnyddio dail yr hydref i wneud gweithgareddau crefft cyn i ni gyrraedd ac roeddent yn aros i'r rhain sychu cyn eu peintio. Roedd y plant yn mwynhau amrywiaeth o ddigwyddiadau chwarae drwy gydol y flwyddyn ac roedd ffotograffau ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau traeth a 'choed' yn dangos eu bod yn cael digon o gyfleoedd i ymestyn eu dysgu yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu drwy'r gweithgareddau amrywiol a diddorol sydd ar gael iddynt.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn dysgu sgiliau annibyniaeth.

Roedd y plant yn llwyddo i ddysgu sgiliau annibyniaeth, fel bwyta eu bwyd eu hunain a dewis eu heitemau chwarae eu hunain. Aeth un plentyn, heb unrhyw anogaeth, i nôl ei eitemau personol a rhoi ei fag ar ei gefn yn barod i fynd adref wrth i'w riant sgwrsio â'r gwarchodwr plant. Roedd y rhiant a'r gwarchodwr plant wedi synnu bod y plentyn wedi cyflawni'r dasg yn dawel ar ei ben ei hun. Roedd y plant yn dysgu sgiliau corfforol da drwy dreulio amser yn yr awyr agored a bwyta ac yfed yn iach. Roeddent yn dysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr drwy fynd i amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol ar gyfer plant fel grŵp canu wythnosol a chodi arian i elusen genedlaethol drwy daith gerdded noddedig Big Toddle. Roedd llawer o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hiaith ac fe'u clywyd yn cael llawer o sgyrsiau gyda'i gilydd a chyda'r gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn meithrin eu hannibyniaeth ac yn dysgu amrywiaeth o wahanol sgiliau drwy eu trefn ddyddiol a'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac mae'n hybu ffyrdd iach o fyw. Mae gan y gwarchodwr plant gydberthnasau agos a charedig â'r plant ac mae'n eu hadnabod yn dda. Mae'n annog enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol ac yn fodel rôl da. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth o weithgareddau ac yn diwallu anghenion unigol y plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo arferion iach ac yn cadw'r plant yn ddiogel.

Roedd y gwarchodwr plant yn deall beth i'w wneud pe byddai ganddi unrhyw bryderon diogelu ynghylch plentyn fel yr amlinellwyd yn y polisi ysgrifenedig. Roedd ganddi gymhwyster Cymorth Cyntaf Pediatrig cyfredol a oedd yn ei galluogi i roi cymorth cyntaf mewn argyfwng. Roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau gan ddangos bod y gwarchodwr plant yn ymwybodol o ddiogelwch. Roedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal fel bod y plant yn gwybod sut i adael y safle'n ddiogel mewn argyfwng. Roedd y gwarchodwr plant yn hybu iechyd da oherwydd gwelsom ei bod yn rhoi bwyd cartref, ffres a dŵr i'r plant. Er na ddilynwyd polisi newid clytiau Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llawn yn ystod yr arolygiad, aethpwyd i'r afael â hyn yn llwyddiannus yn y fan a'r lle. O ganlyniad, mae'r gwarchodwr plant bellach yn gwybod sut i reoli'r risg o groesheintio mewn perthynas â newid clytiau.

Mae'r gwarchodwr plant yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod iechyd a diogelwch y plant o'r pwys mwyaf.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn modelu ymddygiad cadarnhaol yn dda ac yn trin y plant â pharch.

Gwnaethom arsylwi cartref sy'n canolbwyntio ar y plant lle y caiff gofal ei ddarparu mewn ffordd feithringar ar lefel y plant. Gwelsom fod y gwarchodwr plant yn dilyn ei pholisi rheoli ymddygiad, gan hybu rhyngweithio cadarnhaol. Roedd hi wedi annog y plant i helpu â thasgau a oedd yn addas i'w hoedran a'u cam datblygu ac nid oedd wedi colli unrhyw gyfle i ganmol y plant am fod yn gwrtais neu am wneud rhywbeth yn dda. Roedd y gwarchodwr plant wedi annog y plant yn dyner i rannu, gan sicrhau eu bod yn deall pam, ac roedd hyn wedi golygu bod y gweithgareddau chwarae a dysgu wedi mynd rhagddynt yn ddidrafferth.

Mae'r gwarchodwr plant yn hybu ymddygiad derbyniol drwy ddefnyddio strategaethau cadarnhaol y mae'r plant yn eu deall.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu â'r plant mewn ffordd gadarnhaol er mwyn hyrwyddo eu chwarae, eu dysgu a'u datblygiad ac mae'n adnabod y plant yn dda.

Roedd y gwarchodwr plant yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu a oedd yn galluogi'r plant i feithrin gwahanol sgiliau dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, roedd wedi trefnu gweithgareddau garddio yn yr awyr agored gan roi cyfle i'r plant hau hadau a thyfu llysiau. Roedd y gweithgareddau dan do a gynlluniwyd yn hybu dychymyg a dysgu'r plant, fel chwarae rôl, adeiladu a gwaith crefft. Er enghraifft, roedd cynlluniau eisoes ar y gweill i wneud masgiau ystlum ar gyfer Calan Gaeaf ac roedd y plant wedi gwneud masgiau anifeiliaid ar gyfer y Big Toddle. Ystyriwyd arferion a dewisiadau unigol y plant gan ddangos bod y gwarchodwr plant yn eu hadnabod; roedd hi wedi eu cysuro pan roeddent yn flinedig ac wedi sicrhau ei bod yn bodloni eu gofynion deietegol. Pan roedd plentyn yn gadael, roedd y gwarchodwr plant yn rhoi cofnod ffotograffig i'r rhieni o gyfnod eu plentyn yn ei gofal, a oedd yn dangos eu cynnydd a'u cerrig milltir dysgu. Fodd bynnag, gallai'r gwarchodwr plant ystyried cofnodi ei harsylwadau o'r plant wrth iddynt chwarae er mwyn cynllunio ar gyfer eu dysgu a'u datblygiad yn y dyfodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau diddorol ac ysgogol i'r plant.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Darperir amgylchedd glân, diogel a chroesawgar i'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu detholiad o adnoddau sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n annog y plant i chwarae a dysgu. Mae'r ffordd y caiff yr adnoddau eu gosod yn hyrwyddo annibyniaeth y plant.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel i'r plant.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da ac roedd y safle yn ddiogel gan fod y prif ddrws wedi'i gloi ac roedd yr ardal awyr agored yn amgaeedig. Roedd asesiadau risg wedi cael eu cwblhau ac roedd y rhain yn dangos bod y gwarchodwr plant yn rheoli a, lle y bo'n bosibl, yn dileu'r risg o niwed i'r plant ac yn eu cadw'n ddiogel. Gwelsom sut roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel oherwydd roedd giatiau diogelwch ar draws y grisiau ac ystafell gysgu'r ci ac roedd y giât allanol ar glo.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel i'r plant.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd glân, golau ac addas i'r plant chwarae a dysgu.

Roedd gan y plant ddigon o le i symud. Roedd yr amgylchedd yn hybu eu hannibyniaeth gan fod toiled a chyfleusterau golchi dwylo ar y llawr daear, teganau a chyfarpar o fewn cyrraedd iddynt yn yr ystafell chwarae a mynediad hawdd i'r ardd gaeedig. Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn olau, yn lân ac yn groesawgar ac roedd y cynllun yn annog y plant i ymchwilio ac archwilio.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd sy'n eu hannog i ddysgu.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth o adnoddau glân sydd mewn cyflwr da ac sy'n addas i oedran y plant a'u camau datblygu.

Gwelsom ddewis eang o deganau a chyfarpar a oedd yn lân ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr awyr agored. Roedd y gwarchodwr plant yn ymestyn yr amrywiaeth o adnoddau a

oedd ar gael i'r plant drwy ailgylchu deunyddiau, er enghraifft, torri gwaelod poteli plastig er mwyn gwneud pabïau coch i goffáu 'Diwrnod y Cadoediad'.  Roedd y gwarchodwr plant yn ystyried y ffordd orau o hybu chwarae a dysgu'r plant drwy sicrhau bod adnoddau yn gweddu i'r gweithgarwch dan sylw, er enghraifft, roedd pyrsiau yn cael eu cadw mewn basged i'w defnyddio ger yr ardal 'werthu', wrth ymyl til arian. Cafodd y plant eu strapio'n ddiogel mewn cadeiriau uchel a rhoddwyd cymorth i'r rheini a oedd am eistedd ar y cadeiriau 'brecwast' i fwyta eu cinio.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod adnoddau a chyfarpar yn hybu dysgu a datblygiad y plant.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae'n deall ei rôl a'i chyfrifoldebau. Mae'n ystyried ac yn gwneud newidiadau cadarnhaol ac yn rheoli adnoddau'n dda. Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cryf â'r rhieni a'r gymuned ehangach.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw’r arweinyddiaeth?

Mae'r gwarchodwr plant wedi rhoi systemau ar waith i reoli'r gwasanaeth.

Roedd datganiad o ddiben y gwarchodwr plant yn glir ac yn sicrhau bod rhieni'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion nhw a'u plentyn. Roedd yn cadw'r cofnodion gofynnol, megis cofnodion presenoldeb dyddiol ar gyfer y plant a chofnodion damweiniau a digwyddiadau. Gwelsom fod pob darn o waith papur wedi cael ei ffeilio'n daclus, gan gynnwys gwybodaeth bersonol am y plant, a gwelsom dystysgrif yswiriant gyfredol a oedd yn golygu bod gan y gwarchodwr plant y wybodaeth ofynnol i fodloni ein safonau a rheoliadau.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn dda.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r gwarchodwr plant yn gwerthuso'r gwasanaeth ac yn gwneud gwelliannau.

Roedd y gwarchodwr plant wedi cwblhau adroddiad manwl ar ansawdd y gofal, gan nodi bod y rhieni a'r plant yn hapus iawn â'r gwasanaeth. Roedd gwelliannau a nodwyd gan y gwarchodwr plant i ymestyn profiadau dysgu'r plant wedi cael eu cyflwyno, er enghraifft, cyflwyno gweithgareddau garddio er mwyn i'r plant ddysgu sut mae tyfu planhigion o hadau. Roedd gwelliant arall a nodwyd i feithrin cysylltiadau agosach ag ysgolion wedi cael ei roi ar waith yn gadarnhaol hefyd.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud newidiadau cadarnhaol er mwyn datblygu'r gwasanaeth a gwella canlyniadau i'r plant.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau'n dda.

Roedd y gwarchodwr plant wedi sicrhau ei bod yn prynu teganau a chyfarpar sy'n addas i oedran y plant a'u camau datblygu. Roedd y gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant, fel Cymorth Cyntaf Pediatreg, Diogelu Plant a Hylendid Bwyd, a oedd yn dangos ei bod yn ymwybodol o arferion cyfredol er mwyn gwella'r gofal a roddir i'r plant. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y trefniadau ar gyfer casglu plant o'r ysgol wedi newid ychydig. Gan mai cytundeb llafar â'r rhieni oedd hwn ar adeg ein harolygiad, gwnaethom ofyn i'r gwarchodwr plant gofnodi hyn yn ffurfiol a gofyn am lofnod y rhieni i ddangos eu bod yn cydnabod y newid. Roedd y gwarchodwr plant wedi sicrhau bod pawb a oedd yn byw yn y cartref wedi cael cliriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, fel sy'n ofynnol.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau'n effeithiol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni a'r gymuned ehangach.

Roedd y rhieni, fel partneriaid, yn cael eu hysbysu am lesiant eu plentyn gan fod y gwarchodwr plant yn rhoi manylion rheolaidd iddynt am y cyfnodau pan oedd eu plentyn o dan ei gofal, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Roedd y gwarchodwr plant yn casglu plant o ysgolion a oedd yn golygu y gallai siarad â gofalwyr y plant a rhannu gwybodaeth â rhieni'r plant. Roedd y rhieni wedi rhoi manylion ysgrifenedig am eu plentyn cyn iddo ddechrau, a oedd yn golygu bod y rhieni a'r gwarchodwr plant yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y plentyn yn cael y gofal gorau. Roedd y gwarchodwr plant yn mynd â'r plant i grwpiau rhieni a phlant bach a'r llyfrgell ac yn mynd â nhw ar deithiau ac am dro yn lleol. Roedd y profiadau hyn yn helpu i ehangu gwybodaeth y plant am y byd o'u hamgylch ac yn galluogi iddynt deimlo'n rhan o'r gymuned.

Mae'r gwarchodwr plant yn llwyddo i weithio gyda'r rhieni a'r gymuned ehangach er budd y plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

- Dim

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

- Dim

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y gallai'r gwarchodwr plant wneud y canlynol;

- ystyried cofnodi ei harsylwadau o'r plant wrth iddynt chwarae er mwyn cynllunio ar gyfer eu dysgu a'u datblygiad yn y dyfodol;
- llunio cofnod ffurfiol o'r cytundeb â rhieni ynglŷn â newid y trefniadau ar gyfer casglu eu plant o'r ysgol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 09 Hydref 2018 rhwng 11.15 a 14.45.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar y plant a'r gofal a roddwyd iddynt;
- siarad â'r gwarchodwr plant, ei theulu, un rhiant a'r plant a oedd yn bresennol;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau;
- ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan y gwarchodwr plant yn ei Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth; yr Adroddiad ar Ansawdd y Gofal a'r Datganiad o Ddiben;
- rhoi adborth ar ein canfyddiadau i'r gwarchodwr plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan [www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Jennifer Elaine McBeth** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **Geni hyd at 12 oed** |
| **Oriau agor** | **07.45 – 18.00, dydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **09 Gorffennaf 2018** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **09 Hydref 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd ond mae'n gwneud ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |